

ELLIS, JOHN (1760 - 1839), cyfrwywr a cherddor

Enw: John Ellis
Dyddiad geni: 1760
Dyddiad marw: 1839
Rhiant: Jane Ellis
Rhiant: William Ellis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyfrwywr a cherddor
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Cerddoriaeth; Perfformio
Awduron: Robert David Griffith, Huw Williams

Ganwyd yn Nhŷ'n-y-Gwernannau, plwyf Llangwm, sir Ddinbych - dyma gofnod ei fedydd: 'Baptized 8 November 1760, John, twin brother of Jane; Parents names, William and Jane Ellis, Ty'n y Gwernannau; David Lloyd, Rector.' Cymerodd ddi-ddordeb mewn cerddoriaeth yn ieuanc, a dysgodd ganu'r fflwt. Prentisiwyd ef yn gyfrwywr, ac wedi bwrw ei brentisiaeth a phriodi, agorodd siop yn Heol Scotland, Llanrwst. Yn 1800 ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd a phenodwyd ef i fynd oddi amgylch i ddysgu i'r cynulleidfaoedd ganu. Cyhoeddodd, yn 1816, *Mawl yr Arglwydd, yn cynnwys Mawlganau, a chyfarwyddiadau i ganu a'r deall, a hyfforddiadau i ddysgu cerddoriaeth* - y llyfr tonau cyntaf a gafodd y genedl. Wedi dwyn y llyfr allan symudodd i Lanfyllin, ac oddi yno i Lerpwl, a phenodwyd ef yn arweinydd y canu yng nghapel Pall Mall. Yn 1828 ymunodd ag eglwys Bedford Street, a gwnaed ef yn arweinydd y canu yno. Cyfansoddodd lawer o anthemau, a cheir 'Molwch yr Arglwydd,' 'Duw yn ddiâu a glybu,' a 'Cân Moses' yn Y *Gyfres Gerddorol* wedi eu trefnu gan 'Owain Alaw'. Erys y dôn 'Eliot,' 9.8., a ymddangosodd o dan yr enw 'Hill Street', yn Y *Dysgedydd*, Ionawr 1822, yn boblogaidd. Bu farw 31 Ionawr 1839, a chladdwyd ef ym mynwent y Wesleaid Saesneg yn Stanhope Street, Lerpwl.

Awduron

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Huw Williams, (1922 - 2002)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Y Cerddor, Mai 1889

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, Mai 1928

R. D. Griffith, *Hanes canu cynulleidfaol Cymru* (Caerdydd 1948)

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889â€96), x, 529

J. Hughes Morris, *Hanes Methodistiaeth Liverpool* (Lerpwl 1929-1932), i, 230-1

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733404](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Griffith, R. D., & Williams, H., (1953). ELLIS, JOHN (1760 - 1839), cyfrwywr a cherddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/ELLI-JOH-1760>

frannu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government